# Pam ydym eisiau gwybod **beth yw barn pobl**

## Mae'n bwysig i ni ein bod yn deall ble mae pethau'n

- gweithio'n dda, neu
- ble mae angen gwella

**yn ogystal â chydweithio â chi i helpu i siapio**

- ein cynlluniau ar gyfer Sir y Fflint
- sut wasanaethau sydd gennym a sut y maent yn cael eu darparu

## Mae'r gyfraith hefyd yn dweud bod yn rhaid i ni ofyn i chi am eich barn - ond nid dyna'r prif reswm!

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Hawliau Unigolion ag Anableddau

- Mesur yr Iaith Gymraeg 2011

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Adran 62)
- Cyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint

## Beth ydym yn ei olygu wrth ymgynghori ac ymgysylltu

**Ymgynghori** – byddwn yn gofyn i chi *beth yw eich barn* am yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud cyn i ni wneud penderfyniad.

**Ymgysylltu** – byddwn yn gofyn am eich barn a'ch syniadau i *ddylanwadu* ar yr hyn yr ydym yn ei wneud a'r penderfyniadau a wnawn.

**Ymgysylltu** – byddwn yn *gweithio* gyda chi fel eich bod yn helpu i siapio'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r penderfyniadau a wnawn.

**Cydgynhyrchu** – byddwn yn rhannu *pŵer a chyfrifoldeb* gyda chi a bydd y penderfyniadau'n cael eu *rhannu*.

Dewch o hyd i ni ar

Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2026

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Pwy all gymryd rhan

Mae tua **155,000** o bobl yn byw yn Sir y Fflint ac rydym ni eisiau clywed lleisiau llawer o wahanol bobl er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir i bobl ***heddiw*** ac i bobl yn y ***dyfodol.***

## Sut mae Sir y Fflint yn edrych *(yn ôl cyfrifiad 2021)*

### RHYW

**49%** Gwryw

**51%** Benyw

### POBL ANABL

*o dan y Ddeddf Cydraddoldeb*



**19.1%**

### GRWPIAU OEDRAN

| Grŵp oedran | % |
|---|---|
| 0-14 | 16.54% |
| 15-24 | 10% |
| 25-34 | 12% |
| 35-49 | 18.3% |
| 50-64 | 21.6% |
| 65-74 | 11.8% |
| 75-84 | 7.2% |
| 85+ | 2.4% |

### ETHNIGRWYDD

| Grŵp | % |
|---|---|
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 0.9% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 0.2% |
| Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog | 0.9% |
| Gwyn | 97.6% |
| Grwpiau ethnig eraill | 0.3% |



## MWY NA 60 O WAHANOL *BRIF* IEITHOEDD YN CAEL EU SIARAD

*(nodwyd y 7 uchaf)*

| | |
|---|---|
| Cymraeg neu Saesneg | 96.3% |
| Pwyleg | 1.4% |
| Rwmaneg | 0.5% |
| Bwlgareg | 0.3% |
| Lithwaneg | 0.3% |
| Hwngareg | 0.2% |

## SIARAD CYMRAEG

*(nid o reidrwydd yn brif iaith)*

**11.6%**

## IAITH ARWYDDION

*(prif iaith)*


**0.03%**

## CYN-FILWYR Y LLUOEDD ARFOG

**5.3%**

## CREFYDD

| | |
|---|---|
| Dim crefydd | 40.7% |
| Cristion | 51% |
| Bwdhydd | 0.3% |
| Hindŵ | 0.2% |
| Mwslim | 0.5% |
| Crefydd arall | 0.3% |





## CYFEIRIADEDD RHYWIOL


*16 oed neu'n hŷn*

| | |
|---|---|
| Strêt neu heterorywiol | 90.5% |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 1.2% |
| Deurywiol | 0.8% |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall | 0.2% |

## HUNANIAETH RHYWEDD

*16 oed neu'n hŷn*


| | |
|---|---|
| Yr un rhyw a gofrestrwyd ar adeg geni | 93.5% |
| Gwahanol ryw i'r un a gofrestrwyd ar adeg geni | 0.1% |
| Menyw drawsrywiol | 0.1% |
| Dyn trawsrywiol | 0.1% |



## PRIOD NEU BARTNERIAETH SIFIL

*16 oed neu'n hŷn*

- Erioed wedi bod yn briod nac mewn partneriaeth sifil
- Priod neu mewn partneriaeth sifil
- Wedi gwahanu, ond yn dal wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol
- Wedi ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu
- Gweddw neu bartner sifil sy'n fyw




## GOFAL DI-DÂL

*5 oed neu'n hŷn*

| | |
|---|---|
| 89.6% | *Ddim yn darparu unrhyw ofal di-dâl* |
| 5% | *Yn darparu 19 awr neu lai* |
| 2.1% | *Yn darparu 20 - 49 awr* |
| 3.3% | *Yn darparu 50+ awr* |



## Pryd all pobl gymryd rhan

Er mwyn clywed lleisiau pawb, byddwn yn gwahodd

- y bobl gywir ar yr
- amser cywir yn y
- man cywir yn y
- dull cywir

Byddwn yn cychwyn sgyrsiau mor fuan ag sy’n bosibl fel bod y farn a’r safbwyntiau yr ydym yn eu casglu yn gallu dylanwadu ar y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud.

Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan yn eang:

- ar ein gwefan: www.siryfflint.gov.uk/dweudeichdweud
- ar y cyfryngau cymdeithasol
- trwy grwpiau a rhwydweithiau
- mewn llawer o wahanol ffyrdd i gyrraedd y bobl yr ydym yn awyddus i glywed eu lleisiau

## Sut all pobl ddweud wrthym beth sy’n bwysig iddyn nhw

- E-bost
- Gwefan
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Ffôn
- Post
- Eich cynghorydd lleol
- Sir y Fflint yn Cysylltu
- Digwyddiadau a sesiynau galw heibio
- Arolygon ac ymgynghoriadau
- Grwpiau a hwydweithiau
- Dros amser, bydd ein Strategaeth Ddigidol a’n Rhaglen Drawsnewid yn ychwanegu mwy o ffyrdd i bobl gymryd rhan.

Pan ydym yn gofyn am eich adborth byddwn yn defnyddio’r Canolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu ar ein gwefan. Bydd yn rhoi gwybodaeth am bwrpas yr ymgynghoriad a sut y gallwch chi gymryd rhan.

www.siryfflint.gov.uk/dweudeichdweud

Byddwn yn defnyddio gwahanol sianeli cyfathrebu i gyrraedd gwahanol grwpiau o bobl.



## …. ond nid oes angen i chi aros i ni ofyn i chi am y pethau sy'n bwysig i chi.

Os ydych yn dymuno dweud wrthym am rywbeth sy'n bwysig i chi, mae ffyrdd eraill o gysylltu â ni:

**Cyfeiriad:** Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

**E-bost:** gwasanaethaucwsmer@siryfflint.gov.uk

**Rhif ffôn:** 01352 752121

**Sir y Fflint yn Cysylltu:** www.siryfflint.gov.uk/cysylltu

- **Llyfrgell Bwcle**, The Precinct, Bwcle, CH7 2EF
- **Wepre Drive**, Cei Connah, CH5 4HA
- **Heol yr Eglwys**, Y Fflint, CH6 5BD
- **Hen Neuadd y Dref**, Stryd Fawr, Treffynnon, CH8 7TD
- **Llyfrgell yr Wyddgrug**, Ffordd yr Iarll, yr Wyddgrug, CH7 1AP

**Gwefan:** www.siryfflint.gov.uk

**Cyfryngau Cymdeithasol :** Cyngor Sir y Fflint @csyfflint

**Eich Cynghorydd Lleol:** www.siryfflint.gov.uk/EichCynghorwyr

**Grwpiau a rhwydweithiau:** www.siryfflint.gov.uk/GrwpiauYmgysylltu

**Pryderon a Chwynion** – os yw eich adborth yn ymwneud â phryder neu gŵyn, mae'n bwysig eich bod yn dilyn gweithdrefn Pryderon a Chwynion y Cyngor.

## Beth fyddwn yn ei wneud gyda'ch adborth

Bydd yr adborth a roddwch i ni yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio i helpu i wneud y penderfyniadau a wnawn, ac os na allwn weithredu ar y pethau a ddywedwch wrthym, byddwn yn egluro pam

Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol. Pan fydd angen i ni ofyn, byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddwch i ni yn ddiogel.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut mae eich adborth wedi gwneud gwahaniaeth. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau:

- ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/DywedochChiGwnaethomNi
- trwy'r holl sianeli a ddefnyddiwyd i gasglu eich adborth

